Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Gweithdy CPCC RCP - Papur cefndirol**
Ionawr 2024

# Cydweithio amlsector i gefnogi gweithredu cymunedol

## Cyflwyniad

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) a'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar (RCP) yn cydweithio ar ymchwil **i ddeall yn well beth yw rôl cydweithio amlsector wrth gefnogi gweithredu cymunedol a lles cymunedol**.

Mae'r prosiect yn ymateb i ddiddordeb ar draws Bartneriaeth wrth benderfynu *beth* sy'n gwneud cydweithio'n effeithiol, a *sut* y gellir ei ddatblygu a'i wella mewn cyd-destunau penodol. Mae ymchwil sy'n bodoli eisoes yn dweud llawer wrthym am sut beth yw cydweithio da, ond nid yw'n dweud hanner cymaint wrthym am sut i sefydlu a chynnal cydweithio pan nad yw'r 'cynhwysion' delfrydol hyn ar gael neu'n anodd dod o hyd iddynt. Felly, mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar nodi **camau gweithredu diriaethol** i ddatblygu cydweithio, sy'n addas ar gyfer gwahanol gyd-destunau a nodau cydweithio.

Mae dau gam i'r prosiect:

1) adolygu tystiolaeth a gyhoeddwyd ers dechrau pandemig Covid-19[1] ar sut mae cydweithio amlsector yn dylanwadu ar weithredu cymunedol o (a) astudiaethau achos ar sail ymarfer ledled Cymru; (b) llenyddiaeth lwyd yn y DU (e.e. adroddiadau a blogiau sy'n seiliedig ar ymarfer); a (c) llenyddiaeth academaidd; ynghyd â chrynodeb o'r radd flaenaf o dystiolaeth cyn y pandemig gan Brifysgol Leeds Beckett.

2) gweithdy i ymgysylltu â phrif ganfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth ac ystyried beth y gallent ei olygu mewn gwahanol gyd-destunau ledled Cymru.

**Pwrpas y ddogfen hon yw cynnig cefndir ar gyfer y deunydd y byddwn yn ei drafod yn fanwl gyda'n gilydd yn ystod y gweithdy ar-lein rydych chi wedi cofrestru ar ei gyfer ar 30 Ionawr 2024.**


Mae'r ddogfen yn dechrau drwy roi cefndir cam un yr adolygiad o dystiolaeth (diffiniadau gweithredol o dermau allweddol a gwybodaeth am ffynonellau tystiolaeth). Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg byr o brif ganfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth. Mae hyn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r prif adolygiad o astudiaethau achos yn seiliedig ar ymarfer, llenyddiaeth lwyd ac ymchwil academaidd (2020-2023) ac mae'n cynnwys is-adran ar y grynodeb o dystiolaeth a oedd ar gael cyn y pandemig. Mae'r adran olaf yn amlinellu sut rydym yn bwriadu ymgysylltu â chanfyddiadau cam un yn ystod y **gweithdy ar 30 Ionawr** i gyd-gynhyrchu'r allbwn/allbynnau terfynol (cam dau). Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithdy i ychwanegu eich arbenigedd a'ch profiad at y sylfaen dystiolaeth.

[1] Nod y ffocws hwn yw cofnodi'r hyn a ddysgwyd o'r cynnydd mewn gweithredu cymunedol, ac arloesi mewn gwaith amlsector, cydweithredol yn ystod cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, o ystyried bod llawer o hyn yn dibynnu ar seilwaith, asedau a pherthnasoedd a oedd eisoes yn bodoli, penderfynwyd cynnwys crynodeb o dystiolaeth cyn y pandemig i gofnodi cyfoeth y llenyddiaeth bresennol ar gydweithio amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol.

## Cefndir: ffynonellau a diffiniadau

*Ffynonellau*

Ffigur 1: Camau ac allbynnau'r prosiect




Mae *Ffigur 1* uchod yn dangos camau'r prosiect a'r mewnbynnau tystiolaeth ar bob cam. Mae *Tabl 1* isod yn rhoi manylion ychwanegol am y ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i ganfyddiadau allweddol yr adolygiad o gydweithio amlsector.

Tabl 1: Ffynonellau tystiolaeth ar gyfer 'cam un' yr adolygiad

| | Astudiaethau achos yn seiliedig ar ymarfer | Llenyddiaeth lwyd | Ymchwil academaidd | Llenyddiaeth cyn y pandemig |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad/e.e.** | Disgrifiadau ymarfer a ysgrifennwyd ymlaen llaw | Adroddiadau, blogiau, fideos wedi'u cyhoeddi | Ymchwil a ghyhoeddwyd, wedi'i hadolygu gan gymheiriaid | Adolygiadau academaidd a llenyddiaeth lwyd |
| **Daearyddiaeth** | Cymru | Y DU | Y DU | Y DU |
| **Amserlen** | Mawrth 2020-Gorff 2023 | Mawrth 2020-Gorff 2023 | Mawrth 2020-Gorff 2023 | Ion 2013 - Mawrth 2020 |
| **Strategaeth chwilio** | 'Galwad' i aelodau'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar a'u rhwydweithiau ehangach | Ffynonellau a ddarparwyd gan aelodau'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar a chwiliad systematig ar-lein | Chwilio drwy gronfeydd data (Scopus + Web of Science), chwilio am gyfeiriadau | Chwilio cronfeydd data (6 cronfa ddata), chwilio am gyfeiriadau, chwilio am wefannau |
| **Sgrinio** | Yn adrodd stori am yr hyn a ddigwyddodd | Perthnasedd i'r pwnc | Perthnasedd i'r pwnc Erthyglau o gyfnodolion yn unig | Perthnasedd i'r pwnc Adolygiadau academaidd a llenyddiaeth lwyd |
| **Ffynonellau wedi'u heithrio** | Dim | 43 of 101 ar destun llawn | Cronfa ddata: 451 o 640 ar y grynodeb; 152 o 189 ar destun llawn Cyfeiriad: 9 of 19 ar destun llawn | Cronfa ddata: 581 o 641 ar y grynodeb; 51 o 60 ar destun llawn Cyfeiriad a chwilio ar y we: 40 of 68 ar destun llawn |
| **Ffynonellau sydd wedi cael eu cynnwys** | 95 | 58 | 47 (37 cronfa ddata; 10 ffynhonnell arall) | 37 (9 cronfa ddata; 28 ffynhonnell arall) |

*Diffiniadau*

Drwy drafod â Grŵp Llywio'r prosiect, rydym wedi datblygu'r diffiniadau canlynol ar gyfer termau allweddol a ddefnyddir yn yr adolygiad.

Ystyr **'cydweithredu amlsector'** yw cydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus, cymunedol neu wirfoddol (e.e. gwasanaethau cyhoeddus a/neu lywodraeth leol a chenedlaethol, *gyda* mudiadau neu grwpiau cymunedol, gwirfoddol a thrydydd sector).

Ystyr **'gweithredu cymunedol'** yw unrhyw weithgareddau, ffurfiol neu anffurfiol, sy'n ceisio cefnogi lles unigolion a chymunedau ac sy'n cael eu cynnal gan grwpiau sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth a rennir (e.e. cymdogaethau) neu ddiddordeb a rennir (e.e. hobïau, hunaniaethau neu brofiadau bywyd).

Ystyr **'llesiant'** yw sut mae pobl yn teimlo'n emosiynol ac yn gorfforol. Gall hyn ddisgrifio profiad ar lefel unigol (e.e. hunanwerth, ymdeimlad o bwrpas), ond hefyd ar lefel gymunedol (e.e. profiadau o gydlyniant cymdeithasol, rhwydweithiau/ gwasanaethau cymorth, neu ansawdd yr amgylchedd). Mae gwella'r ffordd y mae pobl yn teimlo'n emosiynol ac yn gorfforol yn sbardun ac yn ganlyniad i lawer o'r gweithgarwch a drafodir yn yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw llawer yn defnyddio'r term 'llesiant' yn benodol, ac mae'n bosibl fod pobl yn deall ac yn cefnogi profiadau emosiynol a chorfforol mewn amryw o ffyrdd.

## Trosolwg o brif ganfyddiadau'r adolygiad o dystiolaeth


Mae'r canlynol yn crynhoi canfyddiadau allweddol ein hadolygiad o'r astudiaethau achos sy'n seiliedig ar ymarfer, llenyddiaeth lwyd ac ymchwil academaidd (Mawrth 2020-Gorffennaf 2023). Yn gyntaf, rydym yn amlinellu'n fras sut **beth** fyddai cydweithio traws-sector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol ac, yn y pen draw, llesiant. Yna, byddwn yn canolbwyntio ar **sut** y gellid cydweithio'n effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau a **pham** (gyda pha nodau a chanlyniadau). Yn olaf, rydym yn amlinellu cyfres o **gamau gweithredu** posibl ar gyfer datblygu 'y sut a'r pam' mewn perthynas â chydweithio gan ystyried yr holl lenyddiaeth a'r astudiaethau achos.

*Y 'beth'*

Roedd y ffynonellau a adolygwyd yn rhoi manylion helaeth ynglŷn â sut **beth** yw cydweithio effeithiol rhwng y sector cymunedol a'r sector cyhoeddus (y diffiniad o effeithiolrwydd yw'r gallu i helpu gweithredu cymunedol i fynd i'r afael â heriau llesiant, o safbwynt y rhai sy'n cymryd rhan). Rydym wedi categoreiddio'r 'beth' fel **nodweddion** cydweithio effeithiol rhwng y sector cymunedol a'r sector cyhoeddus (e.e. ymddiriedaeth, parch, perchnogaeth, cydfuddiant, nodau cyffredin) a'r **ffactorau** sy'n cefnogi cydweithio effeithiol rhwng y sector cymunedol a'r sector cyhoeddus (e.e. cyfalaf cymdeithasol a chysylltiadau, capasiti ac adnoddau, seilweithiau digidol a ffisegol).

Yn aml, cyflwynir y nodweddion a'r ffactorau a nodwyd fel 'galluogwyr' neu 'gynhwysion' ar gyfer cydweithio effeithiol. Maent yn rhoi trosolwg gwerthfawr o ffactorau cyfrannu a nodweddion cyffredinol, ond gall defnyddio termau sy'n aml yn amwys a heb gyd-destun ei gwneud yn anodd penderfynu sut y gallai'r rhain fod yn berthnasol i wahanol gyd-destunau neu gael eu cyflawni mewn cyd-destunau gwahanol, yn enwedig pan allai rhai 'cynhwysion' fod ar goll neu'n anodd dod o hyd iddynt, a phan fod yna rwystrau rhag cydweithio. Er enghraifft, gallai ystyr 'ymddiriedaeth' neu sut mae'n cael ei brofi ddibynnu ar ein lleoliad daearyddol, gyda phwy rydyn ni'n gweithio â nhw, a beth yw'r nodau. Yn yr un modd, gallai dulliau o feithrin ymddiriedaeth ddibynnu ar a oedd perthnasau'n bodoli yn y gorffennol ai peidio, pa mor gadarn ydynt, y rhwydweithiau ehangach o'u cwmpas, a'r adnoddau a'r seilweithiau sydd ar gael i'w cynnal. Felly, fe ganolbwyntiom ein dadansoddiad ar gwestiynau sy'n gofyn **'sut'**: sut gallai nodweddion cydweithio amlsector effeithiol a'r ffactorau sy'n ei alluogi fod yn berthnasol i wahanol gyd-destunau a chael eu datblygu mewn cyd-destunau gwahanol. Roedd hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd canfod **'pam'** yr oedd cydweithio'n digwydd, yn hytrach na gweld cydweithio fel nod ynddo'i hun.

Ffigur 2: Nodweddion a Ffactorau cydweithio effeithiol




*Y 'sut'*

Wrth echdynnu data o'r ffynonellau, buom yn chwilio am dystiolaeth o **gamau gweithredu** diriaethol a gymerwyd (neu y gellid eu cymryd) mewn cyd-destunau penodol i gyflawni neu ddatblygu'r nodweddion cydweithio effeithiol uchod (e.e. ymddiriedaeth) a'r ffactorau sy'n ei alluogi (e.e. adnoddau ariannol). Mae *Ffigur 3* isod yn dangos sut mae gwahanol gamau gweithredu yn sail i nodweddion a ffactorau sy'n dylanwadu ar gydweithio amlasiantaeth effeithiol a sut mae nodau a chanlyniadau cyffredin (sy'n ymwneud â'r broses a llesiant) yn eu sbarduno. Mae'r holl gamau gweithredu a swyddogaethau hyn yn dibynnu ar y cyd-destun. Fe wnaethom osod y camau gweithredu hyn mewn tri chategori: **gweithgareddau ar gyfer pwrpas cyffredin, trefniadau llywodraethu, a mecanweithiau ariannol.** Mae *Tabl 2* isod yn diffinio'r tri chategori hyn ac yn rhoi crynodeb o'r gwahanol fathau o gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob un. Yn ystod gweithdy mis Ionawr, byddwn yn archwilio'r rhain yn fanwl, gan ddarparu enghreifftiau sy'n codi o'r data o'r ffordd y gallent edrych yn ymarferol, a thrafod gyda chi a ydynt yn adlewyrchu eich profiad ai peidio.

Y camau gweithredu hyn yn *Nhabl 2* – y 'sut' o safbwynt cydweithio amlsector effeithiol – oedd prif ffocws ein dadansoddiad. Nid oeddent yn flaenllaw mewn llenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd fel y 'beth', ond yn fwy cuddiedig yn y manylion. Fe'u disgrifiwyd yn


amlach mewn astudiaethau achos, gan dynnu sylw at bwysigrwydd casglu safbwyntiau pellach ynghylch ymarfer drwy'r gweithdy. Yn hollbwysig, nid oedd digon o dystiolaeth yn y manylion a adolygwyd ynghylch i bwy ac i beth roedd y camau gweithredu hyn yn gweithio iddynt: sut roeddent yn berthnasol i wahanol **swyddogaethau** (nodau a chanlyniadau) cydweithio, ac i wahanol **gyd-destunau**. Gallai hyn olygu gwahanol raddfeydd (lleol i genedlaethol), daearyddiaeth (gwledig i drefol), amserlenni (ar unwaith i'r tymor hirach), a gweithredwyr (e.e. grwpiau cymunedol, ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus, cyllidwyr).

> **Un o nodau allweddol mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn yw datblygu cyd-ddealltwriaeth o sut mae gwahanol gamau gweithredu i gefnogi cydweithio amlsector yn cyd-fynd â gwahanol nodau a chyd-destunau.**

### *Y 'pam'*

Roedd rhoi sylw i'r camau gweithredu penodol y tu ôl i rai o 'gynhwysion' mwy cyffredinol cydweithio amlsector hefyd yn datgelu pwysigrwydd **swyddogaethau** (neu'r 'pam') cydweithio. Roedd **nodau** neu sbardunau'r camau a gymerwyd naill ai'n tueddu i gael eu mynegi fel 'nodau'r broses' (e.e. cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau integredig, neu er mwyn ymgysylltu â dinasyddion wrth i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau) neu 'nodau llesiant' – pa gydweithredu a oedd yn ceisio cyflawni llesiant yn y pen draw (e.e. gwella iechyd meddwl pobl ifanc neu ansawdd yr amgylchedd). Yn yr un modd, roedd tueddiad o ddisgrifio **canlyniadau'r** camau a gymerwyd (yr hyn a gyflawnwyd ganddynt mewn gwirionedd) o safbwynt 'canlyniadau proses' (sut y gwellwyd y cydweithio a sut y cefnogwyd gweithredu cymunedol) a 'canlyniadau llesiant' (beth, yn y pen draw, roedd y cydweithio hwn yn ei olygu o ran llesiant).

Ffigur 3: Camau a Swyddogaethau sy'n sail i gydweithio effeithiol



Tabl 2: Camau a gymerwyd i ddatblygu cydweithio amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol

| **Gweithgareddau at ddibenion cyffredin:** Gweithgareddau sy'n cefnogi cydweithio rhwng sawl sector drwy ddatblygu dealltwriaeth/ nodau cyffredin | **Trefniadau llywodraethu:** Datblygu rolau, cyfrifoldebau, prosesau a strwythurau i gefnogi cydweithio rhwng sawl sector | **Mecanweithiau ariannol:** Dulliau ariannu gwaith/mentrau mewn ffyrdd sy'n cefnogi cydweithio amlsector |
|---|---|---|
| **Casglu gwybodaeth (ymchwil, ymarferion gwrando, digwyddiadau ymgysylltu)** | **Rolau cyswllt/cydlynu a llwybrau atgyfeirio** (e.e., mewn/ar draws Awdurdod Lleol, 3ydd Sector, gwasanaethau cyhoeddus) | **Cyllid grant** (hyblyg, hirdymor, cyfranogol) |
| **Y darlun mawr, meddwl trwy systemau (nodau hirdymor a rennir, ailddiffinio llwyddiant)** | **Cyfrifoldebau a ffiniau** (cytunir arnynt ar y cyd) | **Comisiynu** (cydweithredol/strategol/ar y cyd/ar sail lle/partneriaeth/ar sail canlyniadau) |
| **Cynllunio hirdymor hir a macro-nodau (dogfennau hyblyg, byw)** | **Arwain a gwneud penderfyniadau ar y cyd** (e.e. grwpiau llywio amrywiol sy'n esblygu ac sy'n seiliedig ar werthoedd) | **Meithrin cyfoeth cymunedol** (caffael; buddsoddi/cronfeydd lles) |
| **Hyfforddiant/dysgu ar y cyd (digwyddiadau, cynadleddau, cymunedau ymarfer, gweminarau, sesiynau 'dysgu dros ginio', hyfforddiant, adnoddau)** | **Polisïau a gweithdrefnau** (e.e. prosesau/gofynion ffurfiol ar lefelau sefydliadol neu lefelau ehangach) | **Seilwaith/ystadau** (trosglwyddo asedau cymunedol, ymddiriedolaethau tir, rhesymoli ystadau) |
| **Casglu a rhannu gwybodaeth (llwyfannau ar-lein, rhestrau/cyfeiriaduron, cronfeydd data, ymarferion mapio)** | **Cyrff neu seilwaith rhanbarthol/cenedlaethol** (creu neu ddefnyddio'r rhain i gydlynu/cefnogi ymdrechion) | **Codi arian** (Cyllid torfol, Rhoi'n Lleol, rhoddion preifat) |

Roedd tueddiad i gydweithio amlsector effeithiol ddod i'r amlwg  lle nad oedd cydweithio'n cael ei ystyried yn nod ynddo'i hun (e.e. oherwydd bod polisi mewnol neu allanol neu gyfle cyllido yn galw am hynny), ond yn ffordd o sicrhau canlyniad llesiant penodol ar y cyd (e.e. mynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith pobl ifanc mewn dinas).

### *Crynodeb o lenyddiaeth cyn y pandemig gan Leeds Beckett*

Mae'r crynodeb hwn o dystiolaeth a oedd yn bodoli cyn y pandemig yn cynnwys llenyddiaeth ar gydweithio amlsector i gefnogi gweithredu cymunedol a llesiant dros gyfnod hirach a chyn y pandemig (gweler *Tabl 1*). Mae'n codi llawer o themâu tebyg i'r rhai a amlinellir uchod. Er enghraifft, ffocws allweddol y llenyddiaeth yw nodweddion cydweithio effeithiol a ffactorau sy'n ei alluogi. Ond, unwaith eto, drwy archwilio'r 'sut' a'r 'pam' o safbwynt cydweithio effeithiol, ac nid dim ond y 'beth', tynnwyd sylw at amrywiaeth o weithgareddau gwahanol ar gyfer pwrpas cyffredin, trefniadau llywodraethu a mecanweithiau ariannol. Un ychwanegiad pwysig at y canfyddiadau uchod yw'r graddau y mae'r llenyddiaeth cyn y pandemig yn manylu ar **fodelau gwahanol ar gyfer cydweithio amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol a llesiant**. Mae'r rhain yn cynnwys gwahanol setiau o weithgareddau at ddibenion cyffredin, trefniadau llywodraethu a mecanweithiau ariannol, sy'n berthnasol i'r nodau a'r cyd-destunau cydweithio y cawsant eu dylunio ar eu cyfer.

Mae modelau cydweithio presennol yn darparu a) fframweithiau y gellid eu mabwysiadu a'u haddasu mewn cyd-destunau tebyg mewn llefydd eraill, neu b) enghreifftiau o sut y gellid dewis gweithgareddau gwahanol ar gyfer pwrpas cyffredin, trefniadau llywodraethu a mecanweithiau ariannol a'u rhoi at ei gilydd i gyd-fynd â nodau a chyd-destunau cydweithio penodol. Fe wnaeth hyn ein hysgogi i edrych yn ôl ar y prif ddata adolygu (2020-2023) ar gyfer modelau cydweithio. Er eu bod weithiau'n cael eu crybwyll o ran gweithgareddau presennol at bwrpas cyffredin a addaswyd yn ystod y pandemig, yn anaml y byddai ffynonellau'n disgrifio modelau cydweithio'n fanwl neu fel prif ffocws. Fodd bynnag, roeddent yn rhoi mwy o fanylion am ddylanwad neu ganlyniadau camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â modelau

gwahanol, ond roedd tueddiad cyn y pandemig i lenyddiaeth beidio â chynnwys digon o ddadansoddi ar effeithiolrwydd modelau.

Yn olaf, mae'r llenyddiaeth cyn y pandemig yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae perthnasoedd yn cael eu ffurfio ac am ddeinameg pŵer, a'r mathau o gamau gweithredu a allai gefnogi'r rhain. Mae'r prif adolygiad (2020-2023) yn ychwanegu pwysigrwydd pwrpas cyffredin at hyn a sut mae hyn yn sail i berthnasoedd effeithiol a deinameg pŵer mwy cytbwys.

**O ystyried cryfderau a chyfyngiadau gwahanol rannau o'r sylfaen dystiolaeth, rydym yn bwriadu integreiddio canfyddiadau'r prif adolygiad o dystiolaeth (2020-2023), y crynodeb o dystiolaeth cyn y pandemig, a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gweithdy rhyngweithiol (Ionawr 2024) yn allbwn terfynol y prosiect.**

Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer y gweithdy ac yn gosod rhai cwestiynau i chi eu hystyried ymlaen llaw.

## Gweithdy i ymgysylltu â'r canfyddiadau

Nod y gweithdy ar-lein ar **30 Ionawr 2024** yw canolbwyntio ar yr hyn y gallai canfyddiadau'r adolygiad ei olygu'n ymarferol ar draws gwahanol gyd-destunau yng Nghymru. Yn hytrach nag ymarferiad dosbarthu canfyddiadau ymchwil, bydd y gweithdy hwn yn manteisio ar arbenigedd a phrofiad cyfranogwyr i ystyried canfyddiadau'r adolygiad, gwneud synnwyr ohonynt, ac ychwanegu atynt, i lunio allbynnau sy'n canolbwyntio ar ymarfer.

Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar y **camau gweithredu** a amlinellir yn *Nhabl 2*. Dyma'r camau amrywiol a nodwyd yn sgil adolygu'r dystiolaeth (cam un) a gymerwyd i ddatblygu cydweithio amlsector a oedd yn cefnogi gweithredu cymunedol a lles. Mae tri nod i'r gweithdy:

1) Mynd ati ar y cyd i ddehongli, ystyried ac ychwanegu at y canfyddiadau hyn: A yw'r camau hyn yn adlewyrchu profiadau'r cyfranogwyr ai peidio? Beth sydd ar goll? Beth sy'n peri syndod?
2) Sefydlu set ddiwygiedig o gamau gweithredu (gan ychwanegu arbenigedd a phrofiad cyfranogwyr at ganfyddiadau'r adolygiad) ac edrych ar ba nodau a chyd-destunau cydweithio y gallai'r camau gweithredu hyn fod yn addas iddynt: sut, ar gyfer beth a chan bwy, y gellid cymryd camau gwahanol (sy'n fwy/llai priodol i wahanol nodau, graddfeydd, rolau, sectorau, amserlenni, adnoddau ac ati).
3) Ffurfio teipoleg o gamau gweithredu diriaethol i ddatblygu cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol, wedi'u trefnu yn ôl **swyddogaeth** (y math o gydweithio a geisir a'i nodau llesiant cyffredinol), a **chyd-destun** (yr amser, yr arian, y seilweithiau, y rhwydweithiau neu'r adnoddau eraill sydd ar gael). Ein nod yw datblygu adnoddau sy'n canolbwyntio ar ymarfer sy'n cofnodi'r dysgu hwn ar gyfer eraill y tu hwnt i'r gweithdy.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rydym wedi gwahodd ystod eang o gyfranogwyr sydd â diddordeb mewn **cydweithio amlsector sy'n cefnogi gweithredu a llesiant cymunedol**. Bydd yn bwysig tynnu ynghyd pobl sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, ar wahanol raddfeydd ac mewn gwahanol ardaloedd daearyddol yng Nghymru er mwyn datblygu darlun o wahanol gamau y gellir eu cymryd ar wahanol lefelau ar draws y system (e.e. o fewn cymunedau, wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, neu rolau strategol yn y sector cyhoeddus).

Diolch am gofrestru i gyfrannu at y prosiect cydweithredol hwn drwy gymryd rhan yn y gweithdy. Edrychwn ymlaen at eich gweld (dros y we) am 12:30pm ar 30 Ionawr ar gyfer yr hyn y gobeithiwn a fydd yn brynhawn defnyddiol o drafod. Er mwyn i ni allu manteisio i'r eithaf ar eich amser a'ch mewnbwn gwerthfawr yn ystod y gweithdy, byddem yn ddiolchgar pe gallech feddwl ymlaen llaw am y cwestiynau isod:

1) Pam mae gennych chi ddiddordeb mewn cydweithio amlsector effeithiol?

2) Beth fyddech chi'n hoffi ei gyfrannu at y gweithdy hwn a'i elwa ohono?
3) Ydy'r 'camau gweithredu' sy'n cael eu crynhoi yn Nhabl 2 yn adlewyrchu eich profiad? (ydych chi wedi defnyddio gweithgareddau, trefniadau llywodraethu neu fecanweithiau ariannol sy'n debyg neu'n wahanol i'r rhai a restrir?)
4) Pa nodau a chyd-destunau cydweithio y mae'r 'camau gweithredu' hyn wedi gweithio (neu heb weithio) ar eu cyfer?

## Rhagor am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Dr Hannah Durrant**

hannah.durrant@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government